**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Y Cabinet

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 20 Chwefror 2020 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| R Francis-Davies | D H Hopkins | E J King |
| A S Lewis | C E Lloyd | A Pugh |
| J A Raynor | M Thomas | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Prif Swyddog Cyllid / Swyddog Adran 151 |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd(wyr): C A Holley, S Pritchard

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): M C Child

---

## 139. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorydd J A Raynor gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 154 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol" a dywedodd ei bod wedi cael goddefeb gan y Pwyllgor Safonau i aros a siarad, ond i beidio â phleidleisio ar faterion yn ymwneud â phenodi llywodraethwyr awdurdod lleol.

2) Datganodd y Cynghorydd M Thomas gysylltiad personol â Chofnod 154"Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol";

3) Datganodd y Cynghorydd J A Raynor gysylltiad personol â Chofnod 155 a 157 “Gwerthu tir dros ben yn Ysgol yr Olchfa”;

4) Datganodd Huw Evans gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 154 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol" a gadawodd y cyfarfod cyn iddo ddechrau.

## 140. Cofnodion.

**Penderfynwyd** y dylid cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod(ydd) a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2020.

## 141. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

Ni wnaeth Arweinydd y Cyngor unrhyw gyhoeddiadau.

## 142. Cwestiynau gan y cyhoedd.

Gofynnwyd nifer o gwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd mewn perthynas â'r gyllideb. Ymatebodd Aelod perthnasol y Cabinet yn briodol. Nid oedd angen ymateb ysgrifenedig ar unrhyw gwestiynau.

## 143. Hawl i holi cynghorwyr.

Gofynnwyd nifer o gwestiynau gan gynghorwyr ynghylch y gyllideb. Ymatebodd Aelod perthnasol y Cabinet yn briodol. Nid oedd angen ymateb ysgrifenedig ar unrhyw gwestiynau.

## 144. Adborth ar graffu cyn penderfynu ar y gyllideb flynyddol. (llafar)

Cyflwynodd y Cyng. C A Holley yr adborth craffu cyn penderfynu.

## 145. Monitro Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf - Chwarter 3ydd 2019/20.

***Gweithdrefn Galw i Mewn - Testun Craffu cyn Penderfynu:*** *Mae'r penderfyniad hwn yn rhydd o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod "y penderfyniad wedi bod yn destun Craffu Cyn Penderfynu ac ni fu unrhyw newid pwysig i wybodaeth/dystiolaeth berthnasol".*

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Economi a Strategaeth adroddiad a oedd yn manylu ar fonitro cyllidebau refeniw a chyfalaf 2019-2020 yn ariannol, gan gynnwys cyflwyno arbedion cyllidebol.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Nodi'r sylwadau a'r amrywiadau yn yr adroddiad a'r camau gweithredu sydd ar y gweill er mwyn mynd i'r afael â'r rhain;

2) Nodi'r gwelliannau sylweddol a wnaed hyd yn hyn a chynlluniau eraill y cyfarwyddwyr i sicrhau'r Cabinet y gellir cydbwyso'r cyllidebau gwasanaeth ar gyfer 2019-2020 ac ar ôl hynny er mwyn cael eu rhoi ar waith erbyn 1 Ebrill 2020, ac yn cynharach lle bo'n bosib;

3) Ni all unrhyw swyddog ystyried unrhyw ymrwymiadau gwario pellach o bwys nes bod y cynlluniau arbed hynny'n cael eu sicrhau a'u rhoi ar waith, fel y manylir yn yr adroddiad i fynd i'r afael â gorwario ar wasanaethau.

## 146. Cynllunio Ariannol Tymor Canolig 2021/22 - 2023/24.

***Gweithdrefn Galw i Mewn - Testun Craffu cyn Penderfynu:*** *Mae’r penderfyniad hwn yn rhydd o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod “y penderfyniad wedi bod yn destun Craffu Cyn Penderfynu ac ni fu unrhyw newid pwysig i wybodaeth/dystiolaeth berthnasol”.*

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn nodi rhesymeg a diben y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, a manylodd ar y tybiaethau ariannu mawr ar gyfer y cyfnod, gan gynnig strategaeth i gynnal cyllideb gytbwys.

**Penderfynwyd:**

1) Argymell Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2021-2022 hyd at 2023-2024 i'r cyngor fel sail ar gyfer cynllunio ariannol y gwasanaethau yn y dyfodol.

## 147. Cyllideb Refeniw 2020/2021.

***Gweithdrefn Galw i Mewn - Testun Craffu cyn Penderfynu:*** *Mae’r penderfyniad hwn yn rhydd o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod “y penderfyniad wedi bod yn destun Craffu Cyn Penderfynu ac ni fu unrhyw newid pwysig i wybodaeth/dystiolaeth berthnasol”.*

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn nodi'r sefyllfa bresennol o ran y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2020-2021. Roedd yn manylu ar y canlynol:

- Monitro ariannol 2019-2020;
- Setliad cyllid llywodraeth leol 2020-2021;
- Rhagolwg cyllidebol 2020-2021;
- Cynigion arbed penodol;
- Canlyniad yr ymgynghoriad ar y gyllideb;
- Goblygiadau staffio;
- Gofynion y cronfeydd wrth gefn;
- Gofyniad y gyllideb a Threth y Cyngor 2020-2021;
- Crynodeb o gynigion ariannu;
- Risgiau ac ansicrwydd.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Ystyried canlyniad yr ymarfer ymgynghori ffurfiol a chytuno ar unrhyw newidiadau i'r cynigion cyllidebol yn Atodiad D yr adroddiad yn ogystal â'r sefyllfa o ran cyllidebau dirprwyedig fel a nodwyd yn Adran 4.10 a 4.11 yr adroddiad;

2) Nodi'r bwlch presennol mewn adnoddau a grybwyllwyd yn Adran 4.5 yr adroddiad ac, yn unol â'r camau gweithredu posib a nodwyd yn Adrannau 9 a 10 yr adroddiad, gytuno ar gamau gweithredu i gyflawni Cyllideb Refeniw gytbwys ar gyfer 2020-2021;

3) Yn ogystal ag adolygiad o gynigion arbed presennol, bydd angen i'r Cabinet:

a) Adolygu a chymeradwyo'r trosglwyddiadau wrth gefn a argymhellir yn yr adroddiad hwn;

b) Cytuno ar lefel treth y cyngor ar gyfer 2020/2021 i'w hargymell i'r cyngor.

4) Yn amodol ar y newidiadau a nodwyd ac a restrwyd uchod, mae'r Cabinet yn argymell y canlynol i'r cyngor i'w cymeradwyo:

a) Cyllideb Refeniw ar gyfer 2020-2021;

b) Gofyniad y gyllideb ac ardoll Treth y Cyngor ar gyfer 2020-2021.

## 148. Cyllideb a Rhaglen Gyfalaf 2019/20- 2024/25.

***Gweithdrefn Galw i Mewn - Testun Craffu cyn Penderfynu:*** *Mae’r penderfyniad hwn yn rhydd o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod “y penderfyniad wedi bod yn destun Craffu Cyn Penderfynu ac ni fu unrhyw newid pwysig i wybodaeth/dystiolaeth berthnasol”.*

Cyflwynodd Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn cynnig Cyllideb Gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2019-2020 a Chyllideb Gyfalaf ar gyfer 2020-2021 i 2024-2025

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r Gyllideb Gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2019-2020 a Chyllideb Gyfalaf 2020-2021 - 2024-2025 fel a fanylir yn Atodiadau A, B, C, D, E ac F yr adroddiad.

## 149. Cyfrif Refeniw Tai (CRT) - cyllideb refeniw 2020/21.

***Gweithdrefn Galw i Mewn - Testun Craffu cyn Penderfynu:*** *Mae’r penderfyniad hwn yn rhydd o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod “y penderfyniad wedi bod yn destun Craffu Cyn Penderfynu ac ni fu unrhyw newid pwysig i wybodaeth/dystiolaeth berthnasol”.*

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn cynnig Cyllideb Refeniw ar gyfer 2020-2021 a chynnydd rhent i eiddo o fewn y Cyfrif Refeniw Tai (CRT).

**Penderfynwyd** argymell y cynigion cyllidebol canlynol i'r cyngor i'w cymeradwyo:

1) Cynyddu rhenti'n unol â pholisi rhent dros dro Llywodraeth Cymru fel a fanylwyd yn Adran 3 yr adroddiad;

2) Cymeradwyo ffïoedd, taliadau a lwfansau fel a amlinellir yn Adran 4 yr adroddiad;

3) Cynigion y gyllideb refeniw fel a nodwyd yn Adran 4 yr adroddiad.

**150. Cyfrif Refeniw Tai - cyllideb a rhaglen gyfalaf 2019/20 - 2023/24.**

***Gweithdrefn Galw i Mewn - Testun Craffu cyn Penderfynu:*** *Mae'r penderfyniad hwn yn rhydd o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod "y penderfyniad wedi bod yn destun Craffu Cyn Penderfynu ac ni fu unrhyw newid pwysig i wybodaeth/dystiolaeth berthnasol".*

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn cynnig Cyllideb Gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2019-2020 a Chyllideb Gyfalaf ar gyfer 2020-2021 - 2023-2024.

**Penderfynwyd** argymell y canlynol i'r cyngor i'w cymeradwyo:

1) Cymeradwyo'r trosglwyddiadau rhwng cynlluniau a'r cyllidebau diwygiedig ar gyfer cynlluniau yn 2019-2020;

2) Cymeradwyo cynigion cyllidebol 2020-2021 a 2023-2024;

3) Lle caiff cynlluniau unigol fel y'u dangosir yn Atodiad B yr adroddiad eu rhaglennu dros y cyfnod 4 blynedd a ddisgrifir yn yr adroddiad, caiff y rhain eu dilyn a'u cymeradwyo, a chymeradwyir eu goblygiadau ariannol ar gyfer ariannu dros y 4 blynedd.

**151. Strategaeth Gyfalaf 2020/21- 2025/26.**

***Gweithdrefn Galw i Mewn - Testun Craffu cyn Penderfynu:*** *Mae'r penderfyniad hwn yn rhydd o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod "y penderfyniad wedi bod yn destun Craffu Cyn Penderfynu ac ni fu unrhyw newid pwysig i wybodaeth/dystiolaeth berthnasol".*

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y Strategaeth Gyfalaf sy'n cyfeirio'r Rhaglen Gyfalaf 4 blynedd.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf.

**152. Cynnig Cyllidebol Canolfannau Gweithgareddau Gwyr ar gyfer 2020/2021.**

***Gweithdrefn Galw i Mewn - Testun Craffu cyn Penderfynu:*** *Mae'r penderfyniad hwn yn rhydd o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod "y penderfyniad wedi bod yn destun Craffu Cyn Penderfynu ac ni fu unrhyw newid pwysig i wybodaeth/dystiolaeth berthnasol".*

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Plant adroddiad a oedd yn ceisio ymgynghori ar gynyddu prisiau ar gyfer Canolfannau Gweithgareddau Gŵyr trwy

amrywiaeth o opsiynau i'w hystyried ar gyfer model gweithredu ar gyfer dyfodol Canolfannau Gweithgareddau Gŵyr gyda chyllideb ar sail sero'n unol â'r cynnig cyllidebol ar gyfer 2020-21.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r cynigion a amlinellwyd i ymgynghori arnynt fel isod:

2) Cynnig 1 - Cael gwared ar BOB cymhorthdal ar gyfer ysgolion Abertawe a disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim (PYDd) a sefydlu pris mwy masnachol sy'n seiliedig ar brisiau'r farchnad bresennol, a chyflwyno'r cynnig yn ehangach nag ysgolion Abertawe'n unig (ymgynghoriad cyhoeddus);

3) Cynnig 2 - ailstrwythuro staff ymhellach i gyfuno swyddi a defnyddio staff tymhorol/cymorth pan fo angen (ymgynghoriad mewnol).

## 153. Ardrethi Busnes - Cynllun Cymorth Ardrethi Dros Dro (Cymru) 2020/2021.

***Gweithdrefn Galw i Mewn - Testun Craffu cyn Penderfynu:*** *Mae'r penderfyniad hwn yn rhydd o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod "y penderfyniad wedi bod yn destun Craffu Cyn Penderfynu ac ni fu unrhyw newid pwysig i wybodaeth/dystiolaeth berthnasol".*

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn darparu gwybodaeth ac yn ystyried mabwysiadu Cynllun Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr ac Ardrethi Manwerthu newydd dros dro sy'n berthnasol i Ardrethi busnes, a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-2021.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi manylion y cynllun yn yr adroddiad;

2) Mabwysiadu'r Cynllun Cymorth Ardrethi a'r broses ymgeisio fel y'u nodir yn yr adroddiad, ar gyfer 2020-2021.

## 154. Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol.

Cyflwynodd Grŵp Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer yr enwebiadau a gyflwynwyd i lenwi swyddi gwag Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol (ALl) ar gyrff llywodraethu ysgolion.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Cymeradwyo'r enwebiadau canlynol a argymhellwyd gan y Cyfarwyddwr Addysg ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau:

| | | |
|---|---|---|
| 1) | Ysgol Gynradd Brynhyfryd | Debbie Whyte |
| 2) | Ysgol Gynradd Brynhyfryd | Y Cyng. Mike White |
| 3) | Ysgol Gynradd Newton | George Butterfield |
| 4) | Ysgol Gynradd Penclawdd | Lynwen Tregembo |

| | | |
|---|---|---|
| 5) | Ysgol Gynradd Penllergaer | Alan Hussey |
| 6) | Ysgol Gynradd Portmead | Paul Phillips |
| 7) | Ysgol Gynradd Seaview | Y Cyng. Cyril Anderson |
| 8) | Ysgol Gynradd Ynystawe | Jenifer James |
| 9) | YGG Bryniago | Elen Jones |
| 10) | YGG Pontybrenin | Huw Evans |
| 11) | Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt | Joanne Meller |
| 12) | Ysgol Gyfun Cefn Hengoed | Sarah Cole |
| 13) | Ysgol Gyfun yr Olchfa | Y Cyng. Mary Jones |
| 14) | Ysgol Gyfun Penyrheol | Y Cyng. Kelly Roberts |
| 15) | YG Bryntawe | Parch. Eirian Wyn |

**155. Gwerthu tir dros ben yn Ysgol yr Olchfa.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gyflwyno a Pherfformiad adroddiad a oedd yn ceisio caniatâd i gael gwared ar dir dros ben yn Ysgol yr Olchfa, am y pris gorau, am swm sy'n fwy na chyfyngiadau'r awdurdod dirprwyedig.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi argymhellion asiantiaid gwerthu tir penodedig y cyngor a chymeradwyo gwerthu'r tir i Gynigiwr 2;

2) Dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr Lleoedd ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Gyflwyno a Pherfformiad i drafod y Penawdau Telerau terfynol a chymryd pob cam gweithredu angenrheidiol i drefnu gwaredu'r tir;

3) Dirprwyo awdurdod i'r Prif Swyddog Cyfreithiol i gael mynediad at unrhyw ddogfennaeth y mae ei hangen i gyflawni'r gweithrediad.

**156. Gwahardd y cyhoedd: -**

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad(au) ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes y nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem(au) f/busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

**157. Gwerthu tir dros ben yn Ysgol yr Olchfa.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gyflwyno a Pherfformiad adroddiad a oedd yn rhoi gwybodaeth gefndir ychwanegol sy'n berthnasol i Adroddiad Arfaethedig "Gwerthu Tir Addysg Dros Ben yn Ysgol yr Olchfa".

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r argymhellion, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.25 am

**Cadeirydd**

| **Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol** | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | 20 Chwefror 2020 |
| Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben<br>(3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi): | 23.59, 25 Chwefror 2020 |
| Penderfyniad yn dod i rym: | 26 Chwefror 2020 |